

Llywodraeth Cymru
Welsh Government


Y Grŵp Cynghori Technegol

# Adolygu'r cyngor ar ganu cymunedol a llafarganu, gan gynnwys chwythu offerynnau gwynt ac organau pib.

**Mehefin 2021**







OGL © Crown copyright 2021

**Grŵp Cynghori Technegol**

**Adolygu'r cyngor ar ganu cymunedol a llafarganu, gan gynnwys chwythu offerynnau gwynt ac organau pib.**

Mehefin 2021

## Crynodeb


Ar draws y DU, mae 2.1 miliwn o bobl yn canu'n rheolaidd ac mae 70,000 o gorau, ac oddeutu 90% o'r rhain yn gysylltiedig â grwpiau ffydd ac ysgolion. Mae'r papur hwn yn diweddaru'r adolygiad ar ganu a gynhaliwyd gan TAG-E ym mis Tachwedd 2020. Mae'n crynhoi'r dystiolaeth ddiweddaraf yn ymwneud â'r risg o drosglwyddo clefyd drwy ganu, lleisio a pherfformiad cerddorol. Mae'n dod i'r casgliad bod tystiolaeth glir y gall canu cymunedol o dan do (e.e. mewn corau) arwain at heintio lawer o bobl gyda COVID-19 os nad oes unrhyw fesurau lliniaru. Felly, mae'r digwyddiadau hyn yn rhai risg uchel os na ddefnyddir unrhyw fesurau lliniaru, yn enwedig os oes lefelau uchel o COVID-19 yn cylchredeg ymhlith y boblogaeth. I'r gwrthwyneb, does dim tystiolaeth bod canu yn yr awyr agored yn arwain at ledaenu'r clefyd i lawer.

Er mai prin yw'r astudiaethau, mae'n ymddangos bod y risg o gynhyrchu erosol yn sylweddol is ymhlith plant o gymharu ag oedolion, sy'n awgrymu bod canu a pherfformiadau cerddorol yn arwain at lai o risg ymhlith plant o dan 18 oed. Mae'r risg o ledaeniad feirysol wrth chwarae offerynnau cerddorol hefyd yn ymddangos yn llawer is na'r risg wrth ganu, ac mae rôl organau pib mewn cynhyrchu erosol yn ymddangos yn ddibwys.

Mae tystiolaeth gymhellol y bydd unigolyn heintus yn taflu defnynnau sy'n cynnwys y feirws i'r amgylchedd wrth leisio, gan danlinellu pa mor bwysig ydyw bod unigolyn heintus yn osgoi cynulliadau cymunedol. Mewn digwyddiad o'r fath, bydd yr hyn sy'n digwydd – a'r risg i eraill – yn dibynnu ar sawl ffactor amgylcheddol a mesurau lliniaru.

Dylid defnyddio mesurau lliniaru safonol i leihau'r risg o drosglwyddo clefyd yn ystod digwyddiadau canu cymunedol (e.e. cadw pellter cymdeithasol, defnyddio gorchudd wyneb, hylendid dwylo, glanhau rheolaidd a diheintio arwynebau). Fodd bynnag, mae manteision rhai dewisiadau lliniaru yn amhendant neu heb eu profi (e.e. defnyddio peiriannau puro aer, amddiffyniad plastig).

Rydym hefyd yn tynnu sylw at feysydd posibl i edrych arnynt yn y dyfodol i alluogi cynllunio mesurau lliniaru mwy effeithiol ac wedi'u targedu.

**I grynhoi, pan fydd niferoedd SARS-CoV-2 sy'n cylchredeg yng Nghymru yn isel, dylai gweithgareddau canu dan do ac awyr agored arwain at risg isel iawn, yn enwedig os defnyddir y strategaethau lliniaru a nodir yma. Fodd bynnag, dylid adolygu hyn yn rheolaidd gan y bydd potensial i amrywiolynnau mwy trosglwyddadwy o SARS-CoV-2 ddod i'r amlwg, y gallai'r brechlynnau ddiogelu llai yn eu herbyn.**